## Iago, brawd Iesu

**Darllen: Marc 6:3; Actau 12:17; 15:13; 21:18; 1 Corinthiaid 15:7; Galatiaid 1:18–19; 2:9; 2:12**

Un o gymeriadau pwysicaf y Testament Newydd yw Iago, brawd Iesu, ac eto ychydig iawn o sôn sydd amdano yn yr efengylau. Mae Marc (6:3) yn cyfeirio at wrthwynebiad pobl Nasareth i Iesu, yn rhyfeddu fod mab y saer, a mab Mair, yn meddu ar gymaint o ddoethineb a gwybodaeth o Dduw. Rhyfeddu fod brawd Iago a Joses a Jwdas a Simon a'r chwiorydd (na enwir) yn ŵr mor athrylithgar. Ond yn Llyfr yr Actau a Llythyrau Paul, cawn olwg arall arno. Yn wir, cyfeiria Paul yn ei Lythyr at y Corinthiaid (15:7) fod Iesu wedi ymddangos ar ôl ei Groeshoelio, yn gyntaf i Pedr a'r disgyblion eraill, ac yna i'w frawd ei hun, Iago. Bu'r ymddangosiad hwnnw yn sbardun i Iago, ac mewn byr amser, gwelwyd ef yn diogelu'r dystiolaeth am weinidogaeth ei frawd daearol trwy ymroddiad cwbl arbennig i'r eglwys a sefydlwyd yn Jerwsalem. Daeth yn golofn yr achos ac ni allai unrhyw arweinydd deithio i'r Ddinas Sanctaidd heb gysylltu gydag Iago.

Yr oedd Iago yn llawer mwy o Iddew na Phaul a Phedr. Gelwid ef ar lafar gwlad yn Iago'r Cyfiawn, hynny yw, Iddew da. Anfonodd Iago rai o'i gefnogwyr i Antioch i geisio perswadio Pedr rhag cyfeillachu dros bryd o fwyd gyda'r cenedl ddynion. Ceisiodd gadw arweinyddiaeth yr Eglwys Fore o fewn teulu daearol Iesu, a cheir cyfeiriad gan hanesydd o'r ail ganrif ato fel Esgob Cyntaf Jerwsalem a'i fod wedi trosglwyddo'r arweinyddiaeth i gefnder iddo. Nid oes unrhyw amheuaeth fod y Croeshoelio a'r Atgyfodiad wedi gweddnewid ei holl agwedd. Llugoer a difater ydoedd pan deithiai Iesu oddi amgylch y wlad yn cyflawni gwyrthiau o ddaioni a dysgu am hanfodion y Deyrnas. Ond daeth Iago yn dyst o'r Atgyfodiad, ac yn ôl pob tystiolaeth bu farw fel ei frawd trwy ddichellion yr awdurdodau crefyddol a gwladol. Rhoddwyd ef i farwolaeth yn Llys y Deml gan ei gydgenedl yn 62 Oed Crist. Merthyr arall yn hanes y Ffydd.

***D. Ben Rees***